

Hysbysiad Preifatrwydd Asiantaethau Rhanbarthol y Bank of England Mai 2018

Gwybodaeth a gasglwn

Drwy ein rhyngweithiadau â chi, mae'r Bank of England yn casglu data personol. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys eich enw, eich gwybodaeth gyswllt proffesiynol a busnes a'ch gweithle. I'r graddau y byddwch yn eu datgelu yn ein rhyngweithiadau, rydym hefyd yn casglu eich barn.

Er mwyn nodi unigolion ledled y wlad a all helpu'r Bank i gefnogi ei genhadaeth i hyrwyddo lles pobl y Deyrnas Unedig trwy gynnal polisi ariannol a sefydlogrwydd ariannol, gallwn ni ddefnyddio cronfeydd data masnachol, a rhai ffynonellau sydd ar gael i'r cyhoedd.

Pam bod arnom angen eich data personol

Rydym yn casglu eich data personol i allu cyfathrebu ac ymgysylltu â chi fel rhan o waith ymchwil a gwaith cynrychioliadol rhanbarthol y Bank. Ein sail ni ar gyfer prosesu'r data hwn yw ei fod yn angenrheidiol i gyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol y Bank. I'r graddau y byddwch yn darparu unrhyw categorïau arbennig o ddata personol i ni (megis manylion ynghylch eich barn wleidyddol), ein sail ni ar gyfer prosesu'r data hwn yw ei fod yn angenrheidiol oherwydd rhesymau o fuddiant sylweddol i'r cyhoedd.

Yr hyn a wnawn â'ch data personol

Mae'r wybodaeth a ddarperir gennych yn berthnasol i waith polisi, dadansodol, gweithredol a goruchwylol y Bank.

Yn ystod ein cysylltiad â chi, fe allem gynnal arolygon o amodau busnes. Lle mae'n bosibl, byddwn ni'n cynnal yr arolygon gyda chi wyneb yn wyneb. Pan na fydd hynny'n bosibl, gallem e-bostio dolen unigryw atoch chi i ffurflen arolygu. Rydym yn defnyddio darparwr trydydd parti, WorldAPP Inc, yn yr Unol Daleithiau, i ddarparu'r offeryn ar-lein KeySurvey. Mae WorldAPP Inc yn cymryd rhan, ac wedi ardystio ei gydymffurfiaeth â, fframwaith preifatrwydd UE-U.D cydnabyddedig. Am ragor o wybodaeth ynghylch arferion diogelwch a pholisi preifatrwydd WorldAPP Inc ewch i keysurvey.com/privacy-policy/

Efallai y byddwn ni hefyd yn anfon gwahoddiadau i chi at ein digwyddiadau a manylion ynghylch cyhoeddiadau perthnasol gan y Bank of England. Efallai y byddwn ni'n rhannu eich gwybodaeth bersonol â thrydydd partïon perthnasol (fel lleoliadau cynadledda) er mwyn gweinyddu digwyddiadau, ac at ddibenion diogeledd a diogelwch tân. Ar gyfer digwyddiadau ar raddfa fawr, efallai y byddwn ni hefyd yn defnyddio'r ffurflen ar-lein a ddarperir gan WorldAPP Inc i reoli ymatebion.

Mae'r Bank yn cadw gwybodaeth o adroddiadau ymweliadau cwmni am 5 mlynedd o'n rhyngweithiad diwethaf â chi. Byddwch hefyd yn cael eich tynnu oddi ar ein rhestr bostio gwahoddiadau pan fyddwch chi'n gadael eich sefydliad presennol (oni bai eich bod yn gofyn yn benodol ein bod yn cadw eich gwybodaeth) neu ar eich cais.

Eich hawliau

Mae gennych nifer o hawliau o dan ddeddfau diogelu data. Er enghraifft, mae gennych yr hawl i ofyn i ni am gopi o'r data personol y mae'r Bank yn ei ddal amdanoch chi. Gelwir hwn yn 'Gais Gwrthrych am Wybodaeth'. Gallwch ofyn inni newid sut yr ydym yn prosesu neu'n ymdrin â'ch data personol, ac efallai y bydd gennych yr hawl o dan rai amgylchiadau i fynnu bod eich data personol yn cael ei ddiwygio neu ei ddileu.

Er mwyn cysylltu â ni ynghylch yr hawliau hynny, gan gynnwys gwneud cais am y data personol sydd gennym amdanoch chi, i wneud cwyn neu i gael gwybod rhagor am breifatrwydd a diogelu data yn y Bank, gweler ein gwefan yn <http://www.bankofengland.co.uk/privacy>, e-bostiwrch ni yn data-protection@bankofengland.co.uk neu gallwch ysgrifennu atom yn:

Preifatrwydd
Bank of England
Threadneedle Street
Llundain
EC2R 8AH

Os nad ydych yn fodlon ar ein hymateb neu os ydych yn credu ein bod ni'n prosesu eich data personol heb fod yn unol â'r gyfraith gallwch chi gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG).